# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**3/6/25**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Llinos Edwards (is gadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Huw P Roberts, Lis Puw, Euros Roberts, Rhodri Jones a Beryl Griffiths (rhan o'r cyfarfod).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Sir Alan Jones Evans a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3193 Croeso:** Yn absenoldeb y cadeirydd fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr is gadeirydd, ac fe gyfeiriodd at lwyddiant nifer fawr o drigolion yr ardal yn ddiweddar, yn benodol yn Eisteddfod y Llungwyn, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a llwyddiant y Clwb Pêl-droed yn ystod y tymor diwethaf.

**3194 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Roberts, Heledd Jones, Dewi Jones ac Alwyn Jones.

**3195 Datganiadau o fuddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

**3196 Cofnodion Cyfarfod Mai 2025:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3197 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Adroddwyd fod y clerc wedi cysylltu hefo Grŵp Cynefin yn amlinellu rhai pryderon am y cynllun tai arfaethedig ger Maes y Pandy, ond na dderbyniwyd ymateb hyd yma.

ii. Deffib / Ciosg Cwm Cynllwyd: Derbyniwyd gwybodaeth am gostau gosod deffib ger y ciosg yng Nghynllwyd, ynghyd â chadarnhad fod teulu'r diweddar Geoff Hodgkinson yn bwriadu trosglwyddo'r casgliad er cof amdano i'r cyngor tuag at gostau'r offer. Cytunwyd i symud ymlaen hefo'r gwaith.

iii. Cerrig beddi Mynwent yr Eglwys: Adroddwyd fod cadarnhad wedi ei dderbyn nad oes angen caniatâd yr Eglwys yng Nghymru i symud rhai cerrig beddau yn y fynwent. Cytunwyd felly i symud ymlaen i hysbysebu'r bwriad yn y wasg leol ac ar borth y fynwent.

iv. Gwasanaeth Bysiau T3: Derbyniwyd cadarnhad y bydd y gwasanaeth bws T3 yn dod i fewn i'r pentref (hyd at fynedfa Ysgol O M Edwards), hyn yn weithredol o Fehefin 29ain.

v. Cofnodi Enwau Tirwedd Lleol: Derbyniwyd cadarnhad y bydd ail sesiwn i gofnodi enwau tirwedd lleol yng Ngweithdy'r Saer ar Fehefin 19eg, ac yna Taith Gerdded i Gaer-gai ar Fehefin 27ain pryd y ceir gwybodaeth am waith archeolegol diweddar ar y safle.

vi. Llinellau Melyn ger mynedfa Maes y Pandy: Derbyniwyd cynllun i ddangos lleoliad posibl llinellau melyn. Cytunwyd fod angen dylunio trefniant a fydd yn gwella gwelededd y fynedfa, ond na fydd yn effeithio'n ormodol ar allu trigolion i barcio yn yr ardal yma.

3198 **Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Evans, a dywedodd ei fod wedi bod yn rhan o'r drafodaeth i ddarparu llinellau melyn ger Maes y Pandy, a bod angen proses gyfreithiol i wireddu hyn. Dywedodd hefyd fod Ymgynghoriaeth Gwynedd am gyflwyno cais am 'gyngor cyn cais' ar gyfer gwneud addasiadau i Bont Lliw, Llwybr Cei a Llwybr Tegid. Soniodd hefyd ei fod wedi mynychu sesiwn wybodaeth hefo Dwr Cymru ar eu gwaith ar argae Celyn, a bod y gwaith wedi dod a chyflogaeth i lawer o bobl leol.

3199 **Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu: Nodwyd y bydd angen i'r pwyllgor gyfarfod i ystyried Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri a chyfleon am grantiau cymunedol.
2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd fod angen ail godi'r drafodaeth ar leoliad cyrbau yn y fynwent, a bod angen galw cyfarfod o'r is bwyllgor i ystyried hyn.
3. Bioamrywiaeth: Nodwyd fod angen i'r Pwyllgor gyfarfod i baratoi Cynllun Bioamrywiaeth erbyn diwedd 2025.
4. Nadolig: Heb gyfarfod yn ddiweddar.
5. Asedau: Adroddwyd fod y Cyng Arwel Ll Jones am baratoi adroddiad ar gyflwr asedau'r cyngor yn yr ardal.
6. Cyllid: Cytunwyd y bydd angen i'r pwyllgor gyfarfod pan fydd dogfennau ariannol y cyngor am y flwyddyn 2024/2025 yn barod i'w cyflwyno i Archwilio Cymru.

3200 **Materion Ariannol:** Cymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

Cyflog a threth incwm y Clerc.
Cytundeb glanhau y toiledau.
Anfoneb nwyddau glanhau'r toiledau.
Anfonebau am dorri gwair y Fynwent Newydd a'r Gilfach Goffa..
Anfonebau am wasanaethau dwr y toiledau cyhoeddus..
Anfoneb am atgyweirio'r toiledau cyhoeddus.
Anfoneb am gynnal gwefan y cyngor.
Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Mai yn £33.99, ond fod y bocs casglu yn nhoiledau'r dynion wedi ei ddifrodi, a bod y mater wedi ei adrodd i'r Heddlu.

Cyflwynwyd Ffurflen Flynyddol y cyngor am y flwyddyn 2024/2025, ac fe gymeraswywyd y ffurflen yn barod i'w chyflwyno i'r archwilwyr. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol i'r cyngor.

3201 **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod taflen wybodaeth wedi ei hanfon i aelodau'r fenter yn ddiweddar, ac y bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal yn ystod yr haf.

3202 **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod cais yn cael ei baratoi i ariannu gwaith Gwedd 2 Canolfan Bro Tegid, a bod gwaith datblygu cynlluniau trafnidiaeth a chynllun ynni cymunedol y cwmni yn parhau.

**3203** **Materion cynllunio:** Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

**3204** **Gohebiaeth:**

i. Un Llais Cymru: Cafwyd adroddiad gan Huw P Roberts o gyfarfod pryd y cyflwynwyd Kath Brown fel Swyddog Datblygu Gogledd Cymru. Nodwyd fod angen paratoi Cynllun Bioamrywiaeth i'r cyngor erbyn diwedd y flwyddyn. Derbyniwyd bwletin misol Un Llais Cymru.
ii. Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am ddiwrnod gwybodaeth Natur Eryri, a dywedodd Rhodri Jones y byddai'n cynrychioli'r cyngor yno. Derbyniwyd gwybodaeth am Gronfa Cymunedau Eryri a nodwyd y bydd angen ystyried cynlluniau i'w datblygu. Derbyniwyd gwybodaeth hefyd am Gytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Eryri, ac fe gytunwyd i ddatgan diddordeb y cyngor yn y broses.
iii. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am gronfa Gwynedd Ni, ac fe gytunwyd fod angen i'r Pwyllgor Datblygu gyfarfod yn fuan i ystyried gwahanol brosiectau posibl. Derbyniwyd gwybodaeth hefyd am gyfle posibl i gydweithio i ddarparu Clwb ieuenctid.
iv. Mantell Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am Gronfa Sector Wirfoddol Gwynedd.
v. Neuadd Bentref Llanuwchllyn: Derbyniwyd gwybodaeth am Gyfarfod Blynyddol y Neuadd ar Fehefin 10fed, a dywedodd y Cyng Arwel Ll Jones y byddai'n cynrychioli'r cyngor. Derbyniwyd copi o gyfrifon blynyddol y neuadd er gwybodaeth.

**3205** **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Tynnwyd sylw'r cyngor fod angen tocio coed rhwng y Llys a Dwrnudon, ac hefyd rhwng Tŷ Uchaf a Chefn Prys, a dywedodd y Cyng Alan Evans y byddai'n delio hefo'r mater. Nodwyd fod angen torri gwair Mynwent y Pandy, a newid lampau Stryd Frongain fel rhan o'r prosiect Awyr Dywyll.

**3206** **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 1/7/25 am 7.30pm.